# PWYLLGOR APELAU
## DYDD LLUN, 14EG TACHWEDD, 2016

**(AILYMGYNULLODD Y PWYLLGOR DDYDD MAWRTH, 6 RHAGFYR, 2016)**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.K. Howell [Cadeirydd]

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, W.G. Hopkins, J.P. Jenkins, B.A.L. Roberts, S.E. Thomas a J. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
Mrs J. Stuart – Pen-swyddog Adnoddau Dynol
Mr C. Jones – Cyfreithiwr Cynorthwyol
Mrs M. Evans Thomas – Pen-swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 9.45yb - 12.45yp**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**3. COFNODION**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 6, 7 ac 17 Mehefin 2016 yn gofnod cywir.**

**4. ADRODDIAD NAD YDYW I'W GYHOEDDI**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 na fyddai'r cyhoedd yn cael aros yn y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn datgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffiniwyd hynny ym Mharagraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2007), sef gwybodaeth a fyddai'n debygol o ddadlennu enw unigolyn.**

**5. YSTYRIED APÊL YN ERBYN DISWYDDIAD - ADRAN YR AMGYLCHEDD**

**Ar ôl cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 4 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddid yn datgelu gwybodaeth eithriedig a fyddai'n debygol o ddadlennu pwy oedd yr unigolyn dan sylw.**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud ag enw'r apelydd a manylion personol eraill, sef data personol yn unol â'r diffiniad yn Adran 1 o Ddeddf Diogelu Data 1988. Nid oedd y mater a fyddai'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn fater budd cyhoeddus. Byddai datgelu'r wybodaeth oedd yn yr adroddiad yn annheg ac yn groes i hawl yr apelydd i gael preifatrwydd. Felly ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cynnwys yr adroddiad yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r apelydd a'i gynrychiolydd undeb llafur, ynghyd â'r Swyddogion Ymchwilio penodedig a'r cynrychiolydd Adnoddau Dynol, ac amlinellodd y protocol y byddid yn ei ddilyn wrth wrando ar yr apêl. (roedd copïau o'r protocol wedi eu cynnwys yn y pecyn agenda).

Gan hynny, gwrandawodd y Pwyllgor ar dystiolaeth gan y Swyddogion Ymchwilio, a chan yr apelydd a'i gynrychiolydd undeb llafur.

Rhoddwyd cyfle i'r ddwy ochr groesholi ei gilydd ynghylch y dystiolaeth a ddarparwyd. Yn ystod y rhan hon o'r cyfarfod, daeth yn amlwg bod tystiolaeth newydd wedi dod i'r golwg ers cwblhau'r ymchwiliad. Felly gofynnwyd i'r ddwy ochr adael y cyfarfod er mwyn i'r Pwyllgor gael cyngor cyfreithiol.

Yna cafodd y naill ochr a’r llall eu galw yn ôl i’r cyfarfod a dywedwyd wrthynt fod trefniadau wedi'u gwneud i swyddog o is-adran TG yr Awdurdod ddod i'r cyfarfod i archwilio'r dystiolaeth newydd.

Felly gofynnwyd i'r ddwy ochr adael y cyfarfod tra oedd y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth a’r sylwadau a gyflwynwyd. Yna cafodd y naill ochr a’r llall eu galw yn ôl i’r cyfarfod i gael gwybod beth oedd penderfyniad y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried yr apêl tan 6 Rhagfyr, 2016 er mwyn i'r swyddogion archwilio'r dystiolaeth newydd a oedd wedi'i chyflwyno yn y cyfarfod.**

[SYLWER: Yn ystod yr apêl ataliwyd y cyfarfod sawl tro er mwyn i'r Pwyllgor gael cyngor cyfreithiol a thechnegol.]

## 6. Y CYFARFOD YN AILYMGYNNULL

Roedd y cyfarfod wedi ailymgynnull yn Ystafell Pwyllgorau 2, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin ar ddydd Mawrth, 6ed Rhagfyr, 2016 am 9.45 a.m.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd J.K. Howell [Cadeirydd]**

**Y Cynghorwyr:**
W.G. Hopkins, J.P. Jenkins ac S.E. Thomas

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
Mrs J. Stuart – Pen-swyddog Adnoddau Dynol;
Mr C. Jones – Cyfreithiwr Cynorthwyol
Mr M. Davies – Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 7. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr S.M. Allen, B.A.L. Roberts a J. Williams.

## 8. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 9. APÊL YN ERBYN DISWYDDIAD - ADRAN YR AMGYLCHEDD

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r apelydd a'i gynrychiolydd undeb llafur, ynghyd â'r Swyddogion Ymchwilio penodedig a'r cynrychiolydd Adnoddau Dynol a dywedodd taw diben y cyfarfod y diwrnod hwnnw oedd parhau â'r gwrandawiad ynghylch apêl yn erbyn diswyddiad a oedd wedi ei ohirio ar 14 Tachwedd 2016. Amlinellodd y Cadeirydd y protocol y byddid yn ei ddilyn wrth wrando ar yr apêl. (Roedd copïau o'r protocol wedi eu cynnwys yn y pecyn agenda).

Gan hynny, gwrandawodd y Pwyllgor ar dystiolaeth gan y Swyddogion Ymchwilio, a chan yr apelydd a'i gynrychiolydd undeb llafur. Cafodd y ddwy ochr gyfle i groesholi ynghylch y dystiolaeth a roddwyd ac i grynhoi. Ar ôl gwneud hynny, gadawodd y ddwy ochr y cyfarfod tra oedd y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth a'r sylwadau a gyflwynwyd.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, ynghyd â'r sylwadau a wnaed gan yr apelydd a'r Swyddogion Ymchwilio,

**PENDERFYNWYD**

**6.1 cadarnhau'r apêl a bod penderfyniad y Gwrandawiad Disgyblu a gynhaliwyd ar 6 Hydref, 2016 i ddiswyddo'r apelydd yn cael ei ddiddymu a bod yr apelydd yn cael ei adfer i'w swydd o'r dyddiad hwnnw;**

**6.2 bod yr apelydd yn cael rhybudd ysgrifenedig terfynol a bod yn rhaid iddo gael hyfforddiant priodol.**

Cafodd y naill ochr a'r llall eu galw yn ôl i'r cyfarfod a'u hysbysu ynghylch penderfyniad y Pwyllgor.

_________________________ ____________________

**Y CADEIRYDD** **Y DYDDIAD**